| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **30 MAI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2013/14** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A PHENNAETH SWYDDOGAETH ADNODDAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **PENDERFYNU AR NIFER YR UWCH GYFLOGAU AR GYFER 2013/14** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Taliadau i Aelodau yn cynnwys aelodau cyfetholedig am 2013/14 wedi eu pennu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) fel y nodir yn ei adroddiad blynyddol (Rhagfyr 2012). Mae angen adrodd ar y wybodaeth hon i'r Cyngor er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i uwch gyflog. Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ar y nifer o uwch gyflogau hyd at yr uchafswm a osodwyd gan y Panel.

**1.2** Mae adroddiad yr IRP yn dweud mai uchafswm nifer y Cynghorwyr sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog fydd 15. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyflogau i aelodau yn 2013/14 o safbwynt cyflog sylfaenol, uwch gyflog a chyflogau sifig.

| | |
|---|---|
| Tâl Sylfaenol | £13,175 |
| Uwch Gyflogau – yn cynnwys Cyflog Sylfaenol: | |
| Arweinydd (Band 1) | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd (Band 1) | £29,820 |
| Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (Band 2) | £25,660 |
| Cadeiryddion Pwyllgor | £21,910 |
| Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf | £21,910 |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol arall * | £16,920 |
| Cadeirydd y Cyngor | £19,035 |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £14,805 |

(* Mae grŵp gwleidyddol arall yn golygu grŵp gwleidyddol ar wahân i'r grŵp sy'n rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf sy'n cynnwys dim llai na 10% o aelodau'r Cyngor.)

**1.3** Ar gyfer 2013/14 mae'r IRP wedi nodi :

- Ni chaniateir talu mwy nag un Uwch Gyflog i bob aelod
- Ni chaniateir talu Uwch Gyflog a Chyflog Sifig i aelod.
- Bydd y Cyflog Sylfaenol wedi'i gynnwys ym mhob Uwch Gyflog a Chyflog Sifig.

**1.4** Ni all Cynghorydd sy'n derbyn Uwch Gyflog Band 1 a Band 2 dderbyn cyflog gan un o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru y cafodd ef/hi ei benodi arno.

**1.5** Argymhellir bod uwch gyflogau yn daladwy i ddeiliaid y swyddi canlynol yn ystod 2013/14.

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (5)
Cadeirydd y 2 Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf

**1.6** Yn ystod 2012/13, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn uwch gyflog. Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno parhau gyda'r arfer hwn yn 2013/14 gan ddyrannu'r uwch gyflog sydd ar ôl ac ar gael i'r pwrpas hwn. Mae opsiynau eraill ar gyfer defnyddio'r lwfans sy'n weddill - gallai gynnwys Arweinydd grŵp gwrthblaid arall neu Gadeirydd pwyllgor arall, ond dim ond os nad ydynt yn derbyn uwch gyflog arall.

## 2.0 Taliadau a Lwfansau eraill

**2.1** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar daliadau a lwfansau eraill sy'n daladwy fel a bennwyd gan yr IRP.

## Ad-dalu Costau Teithio ar gyfer Busnes Swyddogol

**2.2** Penderfynodd y Panel na fydd unrhyw newid yn 2013/14 i raddfeydd cynhwysol. Bydd graddfeydd cyfredol Cyllid a Thollau Eu Mawrhydi yn berthnasol.

- 45c y filltir – hyd at 10,000 filltir
- 25c y filltir – dros 10,000 milltir
- 5c y cyd-deithiwr y filltir – ychwanegiad cyd-deithiwr
- 24c y filltir – i feiciau modur preifat
- 20c y filltir – i feics

## Lwfans Cynhaliaeth yn 2013/14

**2.3** Mae ad-dalu costau cynhaliaeth i aelodau ac aelodau cyfetholedig yn seiliedig ar uchafswm y graddfeydd a nodir isod gan y Panel ar sail hawliadau gyda derbynneb.

- £28 y dydd – lwfans dydd am brydau, yn cynnwys brecwast lle na ddarparwyd am hynny yn y taliad dros nos.
- £150 – aros dros nos – Llundain
- £120 – aros dros nos – Caerdydd

- £95 – unrhyw le arall dros nos
- £25 – aros dros nos gyda chyfeillion a theulu.

**Taliadau Aelod Cyfetholedig 2013/14**

**2.4** Pennwyd y ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (gyda hawliau pleidleisio) gan y Panel fel a ganlyn :

| **Aelod Cyfetholedig** | **Ffi** |
|---|---|
| Cadeirydd | £256 ffi ddyddiol*****<br>(£128 ffi hanner diwrnod) |
| Aelod cyffredin o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn Cadeirio'r Pwyllgor Safonau yn ymwneud â Chynghorau Tref / Cymuned | £226 ffi ddyddiol<br>£113 ffi hanner diwrnod |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgor Safonau, Pwyllgorau Sgriwtini (yn delio â materion addysg neu drosedd ac anhrefn) a'r Pwyllgor Archwilio. | £198 ffi ddyddiol<br>£99 ffi hanner diwrnod |

***** Diffinnir cyfarfod llawn fel un sy'n parhau am dros 4 awr, a diffinnir hanner diwrnod fel cyfnod hyd at 4 awr.

**Lwfans Gofal**

**2.5** Rhaid hefyd i'r Cyngor dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr hyn a elwir yn lwfans gofal i ad-dalu treuliau angenrheidiol am ofalu am blant ac oedolion sy'n dibynnu arnynt hyd at uchafswm o £403 y mis.

**3.0 Argymhellion**

1. Cadarnhau'r dyraniad o uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi yn unol â pharagraff 1.5 uchod yn 2013/14.
2. Penderfynu a fydd yr uwch gyflog sy'n weddill ac ar gael yn cael ei ddyrannu i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu i rôl arall sy'n gymwys.
3. Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2013/14 fel a bennwyd gan yr IRP ac a nodwyd yn yr adroddiad hwn.